# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22.10.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Louise Hughes, Evie Morgan Jones, W. Tudor Owen, Peter Read a Gwilym O. Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Alwyn Thomas a Robert Taylor (Swyddogion Gorfodi Trwyddedu), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr J.R. Jones, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, Ieuan Roberts a John G. Jones (aelod ex-officio)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2010/11.**

Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd a diolchodd hefyd i'r cyn-gadeirydd y Cynghorydd W. Tudor Owen am ei wasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Evie Morgan Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2010/11.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2010 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog:-

(a) 22 Ebrill 2010
(b) 28 Mai 2010
(c) 9 Gorffennaf 2010
(ch) 5 Awst 2010
d) 9 Awst 2010

(dd) 9 Medi 2010

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**6. BANGOR BLUES - DIWEDDARIAD**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu i'r eiddo hwn, dan yr hen enw O'Shea's, fod gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog ar 13 Mawrth 2009 mewn ymateb i gais am adolygiad a dderbyniwyd gan yr Heddlu. Penderfyniad yr is-bwyllgor yr adeg hynny oedd i wahardd y drwydded am gyfnod o 6 wythnos. Yn dilyn y cyfnod hwn, pryd hefyd y newidiwyd enw'r eiddo i Bangor Blues, bu newid yn y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig ac ail-agorwyd yr eiddo yn ystod Mai 2009. Yn anffodus, cafwyd tystiolaeth pellach o ymarferion annerbyniol a arweiniodd yr Heddlu eto i gyflwyno cais am adolygiad. Ystyriwyd yr achos gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog ar 21 Hydref 2009 pryd y penderfynwyd gwahardd y drwydded.

Nododd yr apeliwyd yn erbyn y penderfyniad hwn ac oherwydd y cyflwynwyd apêl. 'roedd hawl gan yr eiddo i aros yn agored hyd y gwrandawyd yr apêl ar 7/8 Medi 2010 yn Llys Ynadon Caernarfon. Cyflwynwyd tystiolaeth ar ran y Cyngor gan y Cynghorydd W. Tudor Owen, sef Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a ystyriodd yr achos ar 21 Hydref 2009, yr aelod lleol y Cynghorydd Dewi Llewelyn a gyflwynodd dystiolaeth yng ngwrandawiad yr is-bwyllgor, a'r Rhingyll William Coppack a oedd yn cynrychioli'r Heddlu, sef y corff a gyflwynodd y cais am yr adolygiad yn wreiddiol. Ar ran Bangor Blues, cafwyd tystiolaeth gan ddeilydd y drwydded eiddo a'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig.

Yn ystod y gwrandawiad 'roedd cyfle i'r ynadon herio'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddynt, sef y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r is-bwyllgor ynghyd â gwybodaeth perthnasol o'r cyfnod lle bu'r eiddo'n agored yn dilyn yr apêl. Yn dilyn hynny, penderfynodd yr ynadon wrthod yr apêl a chefnogi'r Cyngor yn eu penderfyniad. Yn ychwanegol i hyn, cyfarwyddwyd deilydd y drwydded i dalu £4,500 tuag at gostau'r Cyngor.

Mae hawl gan ddeilydd y drwydded i ofyn am Ddatganiad Achos ar bwynt o gyfraith, a byddai'n ofynnol iddo ofyn am hynny erbyn 29 Hydref 2010 neu am Arolwg Barnwrol ar sail ymddygiad anghyfreithiol, afresymol neu anghysondeb gweithredol o ran y llys erbyn 8 Rhagfyr 2010. Yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn dilyn penderfyniad yr is-bwyllgor, hyd yn oed os derbynnir apêl ar pa bynnag sail, nid oes hawl ganddo i agor yr eiddo fel sefydliad trwyddedig. Os na ofynnir am Ddatganiad Achos neu Adolygiad Barnwrol, a bod y sefyllfa bresennol yn parhau, yr unig ffordd y gallai'r eiddo hwn agor eto fel eiddo trwyddedig yw os derbynnir cais am drwydded newydd, a byddai angen, yr adeg hynny, i fynd drwy'r drefn arferol o ymdrin â'r cais.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a fu'n gysylltiedig â'r apêl.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. ADOLYGIAD O'R POLISI TRWYDDEDU – DEDDF TRWYDDEDU 2003

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu bod gofyn i'r Cyngor, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, adolygu'r Polisi Trwyddedu bob tair blynedd. Diweddarwyd y polisi ddiwethaf gan y Cyngor ar 13 Rhagfyr 2007 a bwriedir yn awr cyflwyno'r polisi diwygiedig i'r Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010. Rhoddodd fanylion am y newidiadau, a nododd nad oes unrhyw newidiadau sylfaenol, gyda'r newidiadau'n adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth neu arweiniad cenedlaethol ar sut yr ymdrinir â rhai elfennau.

Anfonwyd copi o'r polisi at bob cynghorydd, cyngor cymuned/tref yng Ngwynedd, yr awdurdodau cyfrifol a rhai cyrff perthnasol. Oherwydd i ddyddiad y pwyllgor hwn gael ei newid, nid oedd mewn sefyllfa i adrodd yn llawn ar unrhyw sylwadau a dderbyniwyd. Nododd iddo dderbyn dau sylw hyd yn hyn ond nid ydynt yn sylwadau dadleuol. Yn wyneb hyn, os y derbynnir sylwadau pellach, gofynnodd am yr hawl i wneud mân newidiadau i'r polisi, ond os ydynt yn faterion dadleuol, yna ei awdurdodi ef, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i'w trafod. er cynnwys unrhyw newidiadau yn yr adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010.

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau ond os y derbynnir sylwadau pellach ar y polisi, awdurdodi'r Rheolwr Trwyddedu i wneud mân newidiadau i'r polisi, ond os ydynt yn faterion dadleuol, awdurdodi'r Rheolwr Trwyddedu, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i'w trafod, er cynnwys unrhyw newidiadau yn yr adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010.**

## 8. DIWEDDARU AMODAU HACNI/HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu y gofynnir i ddeilyddion trwydded, wrth dderbyn trwydded yn y maes hacni/hurio preifat, gydymffurfio ag amodau a osodir gan y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r amodau fod yn gyfredol, i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu amgylchiadau. 'Roedd hwn yn faes sy'n newid yn barhaol gyda datblygiadau technegol a cherbydau'n newid yn gyson.

Nododd yr ymgynghorwyd â gweithredwyr cerbydau hacni a hurio preifat a derbyniwyd sylwadau gan nifer ohonynt ar rai o'r amodau a awgrymir.

Nododd isod y prif newidiadau a'r rhesymeg am y newidiadau -

<u>Cerbydau</u>

- Gwneud i ffwrdd ag amodau uchafswm oed pryd y trwyddedir car, ond bod angen prawf mecanyddol ychwanegol ar unrhyw gerbyd ar ôl iddo gyrraedd 10 oed.

  Rhesymeg – nid dewis y swyddogion yw pryd y byddai cerbyd yn addas a'i peidio a bod oedran yn ystyriaeth gwael, cyn belled â bod pob cerbyd yn cyfarfod â'r gofynion mecanyddol. Mae'r Cyngor yn unigryw yng Ngogledd Cymru yn gosod y cyfyngiad o 10 oed. Nododd i'r Adran Addysg ddatgan pryder ynglyn â chodi'r amod

hon.  Mae ganddynt hwy fel adran, amod, sef nad yw cerbydau sy'n cael tendr i gludo plant i'r ysgol ddim mwy na 10 oed. Nid yw'r polisi hwn yn amharu dim ar hynny ac nid oes rheswm i'r Adran Addysg lynu at y polisi o ran eu gwasanaeth hwy.

Cyfeiriodd aelod at y dirwasgiad sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y diwydiant hwn a bod llawer o gerbydau yn y maes hwn bron â chyrraedd 10 oed ond nid yw'r perchenogion yn gallu fforddio eu newid. 'Roedd o'r farn y dylid ystyried tynnu'r amod 10 oed er rhoddi cyfle i'r diwydiant hwn ddod tros y dirwasgiad. Awgrymodd y dylid symud o 10 oed i 12 oed ac 11 mis.

**PENDERFYNWYD codi'r uchafswm oed pryd y trwyddedir cerbyd i 12 oed.**

- Bod angen i bob cerbyd a drwyddedir am y tro cyntaf fod yn llai na 6 oed

  Rhesymeg – dymunir gweld y cerbydau'n cyfarfod â rhyw safon. O osod yr amod hon, credir, o nodi'r defnydd mae'r cerbydau hyn yn eu cael, y byddai eu hoedran naturiol yn arwain at iddynt gael eu newid o fewn rhai blynyddoedd, ond nid o reidrwydd 10 oed. Byddai'r amod hon yn rhwystro cerbydau sy'n 9 oed a 11 mis gael eu trwyddedu am y tro cyntaf, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

  **PENDERFYNWYD bod pob cerbyd a drwyddedir am y tro cyntaf i fod yn llai na 6 oed.**

- Bod pob cerbyd tros 10 oed yn derbyn tri prawf yn flynyddol, sef un prawf MOT statudol a dau archwiliad mecanyddol gan fodurdy a benodwyd gan y Cyngor.

  Rhesymeg – gallai hyn sicrhau bod pob cerbyd yn addas ac mae hefyd yn mynd at leddfu unrhyw bryderon o ran priodoldeb cerbydau tros 10 oed.

  **PENDERFYNWYD bod pob cerbyd tros 10 oed yn derbyn tri prawf yn flynyddol, sef un prawf MOT statudol a dau archwiliad mecanyddol gan fodurdy a benodwyd gan y Cyngor a bod pob cerbyd dan 10 oed i dderbyn dau brawf yn flynyddol.**

- Y mabwysiedir trefn o gael lliwiau penodol ar gyfer y gwahanol gerbydau. Argymhellir bod cerbydau hacni'n ddu gyda boned a chefn coch a cerbydau hurio preifat yn wyn gyda boned a chefn melyn. Byddai'r newidiadau'n dod i rym fel y newidir y cerbyd.

  Rhesymeg – ceisir gwneud yn amlwg i'r cyhoedd bod gwahaniaeth rhwng cerbyd hacni ac un hurio preifat. Derbynnir cwynion cyson gan y diwydiant ei hun bod cymysgedd ymysg y cyhoedd o ran y gwahaniaeth, ac er y ceisir hysbysebu hyn drwy erthyglau yn y wasg, byddai mabwysiadu polisi o'r math yn ei gwneud yn weledol haws i

drosglwyddo'r neges. Mae'r drefn yn bodoli mewn llawer Cyngor ledled y wlad. Sgîl effaith hyn yw y byddai delwedd cerbydau hacni'n benodol yn cael ei godi o weld rhes o gerbydau tebyg eu lliw ar ranc. Derbyniwyd ymatebion eithaf beirniadol gan y diwydiant parthed yr amod hon. Ni fyddai'r amod hon yn berthnasol i gerbydau sy'n derbyn trwydded amodol e.e. dim ond yn gwneud gwaith ar gyfer yr Adran Addysg ac yn cael eu trwyddedu felly.

Cyfeiriodd yr aelodau at y ffaith y byddai cael lliwiau gwahanol fel y cyfeirir atynt uchod yn golygu costau ychwanegol i berchenogion y cerbydau hyn. Awgrymodd un aelod y dylid ystyried bod y cerbydau hacni yn ddu a cherbydau hurio preifat yn wyn a bod y newidiadau hyn i ddod yn weithredol erbyn blwyddyn arbennig.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r swyddogion perthnasol i ymgynghori ymhellach gyda'r diwydiant parthed y posibilrwydd o gael un lliw penodol ar gyfer cerbydau hacni a lliw penodol arall ar gyfer cerbydau hurio preifat a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor nesaf.**

- Ni chaniateir i gerbydau hurio preifat arddangos arwyddion ar eu to.

Rhesymeg – mae canllawiau cenedlaethol yn pwyso ar y Cyngor i sicrhau bod gwahaniaethau amlwg mewn edrychiad cerbyd hacni ac un hurio preifat. Mae'r rhesymeg yn debyg i'r un yn ymwneud â lliw a nododd na fyddai'r amod hon yn cael ei gweithredu os derbynnir yr amod lliwiau.

**PENDERFYNWYD caniatau i gerbydau hacni gael arddangos arwyddion ar eu to ond peidio â chaniatau i gerbydau hurio preifat eu harddangos ar eu to.**

<u>Materion ychwanegol</u>

a) Amodau gwahanol ar gyfer Ardal Arfon

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu bod amodau gwahanol yn bodoli ar gyfer Ardal Arfon. Cyfeiriodd at un amod penodol, sef os y gwneir cais am drwydded o'r newydd bod angen i gerbyd hacni fod yn addas i'r anabl. 'Roedd un o'r gweithredwyr hacni o'r farn y dylid diddymu'r amod hon. 'Roedd y swyddog o'r farn y byddai'n amhriodol ystyried hyn ar hyn o bryd oherwydd nad oedd wedi ymgynghori ar y mater, ond awgrymodd pan ystyrir diwygio'r amodau hyn eto yn ystod y blynyddoedd nesaf, gellir diddymu'r tair rhanbarth yr adeg hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn awgrym y swyddog sef diddymu'r tair rhanbarth pan ystyrir diwygio'r amodau hyn eto yn ystod y blynyddoedd nesaf.**

b) Polisi Limwsinau Hir

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu y penderfynodd y pwyllgor hwn eisoes i ganiatau i limwsinau hir barhau ar ôl 10 oed ond ei bod yn ofynnol iddynt dderbyn 5 prawf mecanyddol y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ôl Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 nid oes gan y Cyngor hawl i ofyn am fwy na thri prawf mecanyddol y flwyddyn. Gofynnodd am farn yr aelodau parthed codi'r uchafswm oed pryd y trwyddedir y cerbydau hyn i 12 oed.

**PENDERFYNWYD peidio cyfyngu'r uchafswm oed pryd y trwyddedir limwsinau hir i 12 oed a derbyn nad oes gan y Cyngor hawl i ofyn am fwy na thri prawf mecanyddol y flwyddyn ar y cerbydau hyn.**

<u>Unigolion</u>

- Cyflwynir cyfundrefn pwyntiau a allai arwain at yrrwr gael ei alw gerbron yr is-bwyllgor unwaith y cyrhaeddir y nifer perthnasol o bwyntiau. Bydd y pwyntiau'n berthnasol am unrhyw gyfnod o 12 mis.

  Rhesymeg – mae amodau'n berthnasol sy'n ymwneud ag ymddygiad gyrrwr neu weithredwr ond nad ydynt yn eu hunain yn ddigonol i alw'r unigolyn gerbron yr is-bwyllgor, Nododd bod yr amod hon yn galluogi'r Swyddogion Gorfodaeth i osod pwyntiau yn erbyn yr unigolyn, ond os yw'r unigolyn yn cyrraedd 12 pwynt mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, byddai'n cael ei alw gerbron yr is-bwyllgor. Mae hyn yn rhoddi awdurdod i'r Swyddogion Gorfodaeth wrth geisio sicrhau bod amodau a safonau'n cael eu gwarchod.

  **PENDERFYNWYD**
  **a) Cytuno i gyflwyno cyfundrefn pwyntiau fel a nodir uchod.**
  **b) Newid pwyntiau cosb y canlynol fel a ganlyn –**
    - **Methiant i gario pecyn cymorth cyntaf yn y cerbyd – codi i 3 pwynt cosb**
    - **Methiant i osod offer diffodd tân yn y cerbyd – codi i 3 pwynt cosb**
    - **Methiant i arddangos trwydded treth cyfredol – codi i 6 pwynt cosb**

- Bod angen cadw llyfr cynhaliaeth ym mhob cerbyd, gyda'r cyfrifoldeb am ei gadw'n gorwedd gyda'r gyrrwr.

  Rhesymeg – bod pob gyrrwr, cyn cymryd perchnogaeth o gerbyd ar ddechrau ei gyfnod gwaith, yn arwyddo i ddweud bod y materion hynny sy'n berthnasol i'r cerbyd yn eu lle e.e. diffoddydd tân, unrhyw fathodynnau/platiau priodol. Nododd ei bod yn gyfrifoldeb ar yrrwr i sicrhau hyn.

  **PENDERFYNWYD cadw llyfr cynhaliaeth ym mhob cerbyd gyda'r cyfrifoldeb am ei gadw'n gorwedd gyda'r gyrrwr.**

- Cyn yr ystyrir cais am drwydded o'r newydd, bydd angen i ymgeisydd ymgymryd â phrawf ysgrifenedig, gyda'r cwestiynau'n seiliedig ar yr amodau hyn. Bydd angen cwblhau'r prawf yn foddhaol cyn yr ystyrir cais am drwydded.

  Rhesymeg – derbynnir sylw'n aml gan unigolion nad oeddent yn

ymwybodol o'r amodau. Y meddylfryd yw y byddai'n ofynnol iddynt fod yn ymwybodol o'r amodau cyn cael trwydded yn y lle cyntaf. Mae profion o'r fath yn fwyfwy cyffredin mewn gwahanol gynghorau ledled Cymru a Lloegr.

**PENDERFYNWYD cytuno bod angen i ymgeisydd ymgymryd â phrawf ysgrifenedig cyn yr ystyrir cais am drwydded o'r newydd.**

Materion ychwanegol

a) Cerbydau dau/pedwar drws

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu y mynnir ar hyn o bryd bod pob cerbyd gydag o leiaf pedwar drws gyda injan 1400cc, ond ni ragwelai anawsterau i roddi trwydded i gerbydau bychain gyda dau ddrws a fyddai'n addas ar gyfer cludo un person.

**PENDERFYNWYD cytuno â'r egwyddor uchod.**

b) Canolwyr

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu y gofynnir ar y ffurflen gais am drwydded, i ymgeiswyr nodi enwau dau ganolwr, sef personau megis Rheolwr Banc, Gweinidog, Ynad Heddwch a.y. Nododd nad yw'r mwyafrif o'r ymgeiswyr yn adnabod y personau hyn ac 'roedd o'r farn nad oedd tystlythyr gan ganolwr yn gallu dylanwadu ar benderfyniad pwyllgor. Tynnodd sylw at y rheidrwydd i bob unigolyn sy'n cyflwyno cais am drwydded fynd drwy'r broses o wneud cais am CRB sef y gofyn am wybodaeth am unrhyw droseddau, a hefyd gyflwyno tystysgrif feddygol. Yn wyneb hynny, argymhellodd ddileu'r drefn o ofyn am enwau dau ganolwr ar y ffurflen gais.

**PENDERFYNWYD dileu'r drefn o ofyn am enwau dau ganolwr ar y ffurflen gais.**

c) Amodau ar gyfer Injan Dân

Awgrymodd aelod y dylid dileu amod rhif 15.

**PENDERFYNWYD dileu amod rhif 15 sef "bydd y rhwystrau ar fynediad i rhai grwpiau penodol o bobl anabl yn cael eu hysbysu i deithwyr wrth iddynt archebu'r cerbyd a hefyd mewn unrhyw lenyddiaeth a hysbysiadau i hyrwyddo'r cwmni".**

**PENDERFYNWYD**

**a) Bod yr amod parthed codi'r uchafswm oed pryd y trwyddedir cerbyd i 12 oed a'r amod bod pob cerbyd a drwyddedir am y tro cyntaf i fod yn llai na 6 oed i fod yn weithredol o ddyddiad y pwyllgor hwn.**
**b) Bod gweddill yr amodau i ddod yn weithredol ar 1 Rhagfyr 2010.**
**c) Gofyn am gefnogaeth yr Adran Addysg mewn perthynas â gweithredu'r amod i godi'r uchafswm oed pryd y trwyddedir cerbyd i 12 oed.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30a.m. a daeth i ben am 12.20pm